



Astudiaeth achos

Teitl yr Astudiaeth Achos Ymgysylltu â Sipsiwn a Theithwyr ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol

Partner **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:** Aelod Etholedig Arweiniol, tîm Cynhwysiant Cymunedol, tîm Strategaeth Tai, tîm Polisi Cynllunio, Gwasanaeth Addysg i Deithwyr

Fudiad(au) **Cyngor ar Bopeth Wrecsam**
Fforwm Amlasiantaeth Sipsiwn a Theithwyr Wrecsam: Canolfan Byd Gwaith, Cyngor ar Bopeth, Gofal Galar Cruse, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Tai Clwyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaethau Iechyd, Plant a Phobl Ifanc, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Grŵp Cefnogi Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Wrecsam, Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Geiriau allweddol Sipsiwn, Teithwyr, CDLI, Cynllun Datblygu Lleol, Ymgysylltu

1. Cyflwyniad cryno

Bwriadwyd y prosiect i wella'r ymgysylltu â Sipsiwn a Theithwyr yn Wrecsam er mwyn:

- deall eu hanghenion llety hirdymor; a
- llywio Cynllun Datblygu Lleol a Strategaeth Tai Lleol Wrecsam.

2. Manylion y mater a ymdriniwyd ag ef

Rhaid i gyngor Wrecsam gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol. Agwedd allweddol ar y Cynllun yw asesiad strategol o anghenion tai / llety y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol. Er mwyn deall y sefyllfa bresennol o ran anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn Wrecsam, rhaid i'r Cyngor gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. [Ystyrid bod gwybodaeth o Asesiad cynharach o Anghenion Llety yn anghyflawn ac yn hen].

- Mae datblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn ddadleuol iawn. Dengys profiad blaenorol fod gan aelodau o'r cyhoedd ehangach gryn bryderon ynghylch lleoliad safleoedd Teithwyr ac mae Aelodau Etholedig yn ei chael yn anodd rhoi sicrwydd i gymunedau. Serch hynny, mae dyletswydd gyfreithiol ar yr awdurdod lleol i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

Amcanion y prosiect yw:

- Cynnwys Sipsiwn a Theithwyr yn fwy yn y broses i ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam, a gwneud hynny mewn modd ystyrlon;
- Cefnogi swyddogion yn y cyngor drwyddo draw sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol;
- Darparu Cynllun Datblygu Lleol a fydd yn diwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam; a
- Galluogi Aelodau Etholedig i ddeall anghenion Sipsiwn a Theithwyr lleol yn well a gwneud penderfyniadau ynglŷn â Chynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol ar sail gwybodaeth.

3. Gweithredoedd/dull a gymerwyd

Sefydlwyd grŵp llywio rhwng y timau Strategaeth Tai, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio. Cytunodd y grŵp i fynd ati ar y cyd gan gynnwys yr holl randdeiliaid:

Rhanddeiliad	Gweithgareddau allweddol
Grŵp llywio	Comisiynu Cyngor ar Bopeth i gynnal ymchwil yr Asesiad o Anghenion i ddarparu'r data crai ac adroddiad – gwnaed hyn gan ddefnyddio perthynas bositif a oedd yn bodoli eisoes â'r gymuned Comisiynu dadansoddwyr data i astudio'r data crai a'i ailgyflwyno mewn fformat sy'n ddefnyddiol i'r CDLI a'r Strategaeth Anghenion Tai
Cyngor ar Bopeth Wrecsam	3 mis o gymorth wedi'i dargedu i ddylunio a chwblhau'r asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr Cynorthwyo Sipsiwn a Theithwyr i gwblhau'r Holiadur Anghenion Llety
Fforwm Amlasiantaeth Sipsiwn a Theithwyr Wrecsam	Rhoi adborth ar y dull a fabwysiadir. Dylunio'r holiadur asesu anghenion llety Mapio Sipsiwn a Theithwyr ledled y Fwrdeistref Sirol
Aelod Etholedig Arweiniol	Rhoi arweiniad ar gynnwys Aelodau Etholedig / Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio Adborth ar y dull a fabwysiadir
Grŵp Darllen ac Ysgrifennu Sipsiwn a Theithwyr	Adborth ar yr holiadur asesu anghenion llety drafft
Cymuned Sipsiwn a Theithwyr	Cwblhau'r Holiadur Asesu Anghenion Llety [gyda chymorth CAB]

4. Buddion fel: gwella gwasanaeth, gwell ddeialog o ran cyllid a chynllunio gwasanaeth rhwng mudiadau trydydd sector ac awdurdodau lleol, trefniadau cymorth mewn nwyddau ayyb.

- Yn defnyddio gwybodaeth leol unigryw a pherthnasau lleol – a fydd yn arwain at well ganlyniadau a data dibynadwy.
- Cyfradd ymateb uchel i'r holiadur Asesu Anghenion Llety.
- Yn rhoi cyfle i 'reoli' y broses ymchwil gan y byddai'n digwydd dros gyfnod hwy o amser nag sydd ar gael drwy ymgynghorwyr sector preifat.
- Yn rhoi cyfle i Sipsiwn a Theithwyr ymwneud yn effeithiol â phroses gynllunio'r CDLI ac yn sicrhau y clywir eu lleisiau.
- Yn rhoi cyfle i fynd ati ar y cyd wrth ddarparu safleoedd i Deithwyr rhwng cymuned y Theithwyr a'r cyngor. Gallai hyn roi buddion ariannol pan ddatblygir safleoedd preifat i ddiwallu anghenion y gymuned a ganfuwyd.

5. Cynnal a/neu adeiladu ar y buddion a gafwyd

- Bydd yr arbenigedd a gomisiynwyd gan CAB yn cynnwys staff yn codi ymwybyddiaeth, hyfforddi Aelodau Etholedig, ymweliadau Aelodau â safleoedd y tu allan i'r sir, ac yn y blaen, a fydd yn darparu tystiolaeth gadarn i Arolygydd y CDLI sy'n edrych ar ymgysylltu â'r gymuned ac yn llywio penderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol ynglŷn â safleoedd Teithwyr.
- Bydd Sipsiwn a Theithwyr yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori eraill yn sgil profiad positif gyda'r CDLI e.e. dylunio safle.

6. Sut, yn eich barn chi, y bu i'r dull ateb yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru?

Cydnabu'r dull yr angen i ymgysylltu â Sipsiwn a Theithwyr mewn ffordd a oedd yn diwallu eu hanghenion a hefyd yn rhoi data digonol i seilio penderfyniadau cynllunio arno yn y dyfodol. Gan ddefnyddio'r egwyddorion cenedlaethol, llwyddom i sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn rhan weithredol o'r broses; bu hyn o gymorth i ni ennyn cefnogaeth uwch reolwyr dros y dull ac wrth ddarparu adborth drwy gydol y broses, llwyddom i gynnwys rhanddeiliaid yn y prosiect drwy'r amser. At ei gilydd, atebodd y prosiect yr Egwyddorion Cenedlaethol ac roedd yna feysydd o arfer da: cynnwys cymuned y Sipsiwn a'r Teithwyr wrth ddylunio'r holiadur. Serch hynny, roedd yna feysydd eraill a oedd yn llai llwyddiannus: rheoli disgwyliaidau'r gymuned a gweithio i amserlen tymor byr benodol iawn.

7. Sut fydddech yn graddio'ch dull o gynnal y prosiect o'i gymharu â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru?

Gwerthusiad

1= gwael iawn: 2 = gwael: 3 = cymedrol: 4 = da: 5 = rhagorol

Egwyddor	
Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth	4
Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny	4
Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol	4
Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol	4
Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall	4
Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan	5
Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol	5
Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol	4
Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad	4
Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu	5

Manylion cyswllt

Enw: Gillian Grainger
Teitl/rôl: Rheolwr Cydlyniant Cymunedol
Mudiad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham
Ebost: gillian.grainger@wrexham.gov.uk
Ffôn: 01978 298736